

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

## Papur Esboniadol – Y Strategaeth Ofodol

Rhagfyr 2019

## Pam rydym ni wedi cyhoeddi'r papurau esboniadol hyn?

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft, awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael mwy o fanylion yn pennu sut mae'r FfDC wedi cael ei baratoi. I gynorthwyo rhanddeiliaid rydym wedi llunio casgliad o bapurau esboniadol er mwyn dangos y dystiolaeth sy'n ategu'r FfDC drafft. Mae'r papurau hyn yn cynnwys:

- Y Strategaeth Ofodol
- Asesiadau'r FfDC
- Hynt y FfDC yn y dyfodol
- Y Rhanbarthau
- Ardaloedd Gwledig
- Yr Angen am Dai
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
- Casgliad o dystiolaeth

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r papur esboniadol hwn yn esbonio sut cafodd strategaeth ofodol y FfDC Drafft ei datblygu, a thynnir sylw at y modd mae'r polisïau'n ategu'r strategaeth.

## Crynodeb

Amlinellir Strategaeth Ofodol y FfDC ym Mhennod 4 o'r FfDC drafft. Ceir esboniad o'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni a nodweddion allweddol y strategaeth yn y FfDC drafft. Mae'r papur byr hwn yn trafod y broses o bennu'r strategaeth ofodol ac yn nodi sut y bwriedir i bolisïau allweddol yn y FfDC drafft gefnogi'r strategaeth.



Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg. / This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2019
WG39565 ISBN digidol 978 1 83933 655 3

## Pennu Strategaeth Ofodol y FfDC

1. Mae'r FfDC drafft yn cynnwys strategaeth ofodol yn unol â'r gofyniad a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (paragraff 3.38) fod yn rhaid i bob cynllun datblygu, gan gynnwys y FfDC.

   *"...gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol".*

2. Mae'r strategaeth ofodol yn y FfDC drafft yn cynnwys tair elfen:

   > Mae'n rhaid i dwf a datblygiadau newydd fod yn y lle cywir, cael eu cyflawni yn y ffordd gywir a defnyddio ein hadnoddau yn effeithion er mwyn cyflawni Canlyniadau'r FfDC. Mae i'r strategaeth ofodol dair elfen sy'n nodi'r canlynol:
   >
   > - ble yng Nghymru y dylid canolbwyntio twf
   > - sut y dylid cynllunio a rheoli twf
   > - sut y dylem bweru a chynhesu lleoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwres rhanbarthol.

3. Mae'r papur hwn yn ymwneud â'r elfen gyntaf – *"Ble yng Nghymru y dylid canolbwyntio twf"*. Yn benodol, canolbwyntir ar ddatblygiadau ar raddfa genedlaethol, fawr a ble y dylid lleoli datblygiadau newydd, sy'n cynnwys cartrefi newydd, swyddi, seilwaith trafnidiaeth, cyfleusterau cymunedol a hamdden.

## Opsiynau Gofodol

4. Nododd yr ymgynghoriad, yn ystod haf 2018, ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir (llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cymru?_ga=2.81060447.990113267.1575967993-1911299510.1570185243) ffyrdd gwahanol o ddatblygu strategaeth ofodol. Profwyd pedwar opsiwn cychwynnol, a daethpwyd i'r casgliad mai opsiwn hybrid oedd yr un mwyaf cynaliadwy. Cafodd y dull gweithredu hybrid hwn ei ddewis fel yr Opsiwn a Ffefrir. Ni chafodd ei gyflwyno ar ffurf ofodol ond rhoddodd sylfaen clir dros ddatblygu strategaeth ofodol, gan nodi meysydd polisi drafft a blaenoriaethu nifer o themâu allweddol.

5. Ymhlith y prif ymrwymiadau yn yr Opsiwn a Ffefrir roedd y canlynol:

   - Bydd y FfDC yn sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rôl allweddol i hwyluso twf glân a datgarboneiddio ac yn helpu i feithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd;
   - Fframwaith polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i ganlyniadau iechyd a llesiant corfforol a meddyliol fod yn ganolog i'r broses o wneud penderfyniadau gofodol;
   - Bydd pob aelod o gymdeithas yn cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, gan gynnwys iechyd, addysg a seilwaith digidol;
   - Bod y system gynllunio yn hwyluso'r broses o sicrhau tir ar gyfer tai o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob rhan o gymdeithas, mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy, yn hygyrch ac yn gysylltiedig;
   - Mae'n rhaid i'r system gynllunio adeiladu lleoedd sy'n creu swyddi, sy'n gwella sgiliau a chyflogadwyedd ac sy'n cynnig amgylchedd lle y gall busnesau dyfu a ffynnu.

## Drafftio'r Strategaeth Ofodol

6. Prif ddiben y strategaeth ofodol yw cefnogi ymdrechion i gyflawni Canlyniadau'r FfDC (gweler Pennod 3 o'r FfDC drafft). Y rhain yw prif dargedau neu uchelgeisiau'r FfDC ac mae'n rhesymegol bod y strategaeth ofodol a'r holl bolisïau yn gyson â'r Canlyniadau er mwyn sicrhau'r cyfle gorau i'w cyflawni. Mae Canlyniadau'r FfDC yn cwmpasu nifer o faterion a defnyddiau tir ac mae pob un o'r 11 yr un mor bwysig â'i gilydd.

7. Roedd y broses o fireinio Canlyniadau'r FfDC a'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir a'u troi'n strategaeth ofodol yn un iterus ac ansoddol yn bennaf. Defnyddiwyd data a gwaith mapio o lle.gov.wales/home?lang=cy ac Ystadegau Gwladol (llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-2019) a chafodd y polisïau a oedd yn deillio o'r strategaeth ofodol eu drafftio a'u mireinio gan ddefnyddio'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

8. Dangosir enghreifftiau o'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth ofodol yn Atodiad 1.

## Strategaeth ofodol: nodweddion allweddol

9. Disgrifir y strategaeth ofodol ar dudalen 22 o'r FfDC drafft:

    *Ein strategaeth yw adeiladu ar gryfderau presennol ac atgyfnerthu manteision. Mae'n annog patrymau datblygu cynaliadwy ac effeithlon, sy'n seiliedig ar gydleoli cartrefi â swyddi a gwasanaethau hanfodol a defnyddio adnoddau yn effeithlon.*

    *Mae cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn golygu canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr fel y prif ardaloedd datblygu.*

    *Ym mhob rhan o Gymru, mae'r strategaeth hon yn cefnogi twf cynaliadwy.*

10. Wrth ddewis ble i ganolbwyntio datblygiadau roeddem yn cydnabod bod gan Gymru ganolfannau poblogaeth a gwaith sefydledig. Edrychwyd ar y data ar ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, dwysedd poblogaeth a chyflogaeth a'r seilwaith trafnidiaeth a ddefnyddir i symud pobl a nwyddau. Cafodd lleoliad ardaloedd amgylcheddol a thirweddol dynodedig ei gynnwys yn y broses hefyd.

11. Os oedd gwybodaeth a chynlluniau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ar gael cyfrannodd hynny at y broses o ddatblygu'r strategaeth ofodol. Roedd y cynlluniau Metro yn y de-ddwyrain, y gogledd-ddwyrain a Bae Abertawe, er enghraifft, yn ystyriaethau pwysig ac yn ffactorau allweddol wrth nodi'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol.

## Nodweddion ar y Diagram Strategol

12. Cyflwynir y strategaeth ofodol yn weledol ar ffurf diagram strategol, a ddangosir ar dudalen 25 o'r FfDC drafft. Y nodweddion gofodol a ddangosir ar y map yw:
    - Ardaloedd Twf Cenedlaethol
    - Ardaloedd Twf Rhanbarthol
    - Cysylltedd Rhanbarthol
    - Cysylltedd Rhyng-drefol
    - Cysylltiadau Rhyngwladol
    - Porthladdoedd/Maes Awyr Strategol
    - Parciau Cenedlaethol
    - Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

13. Ni fwriedir i'r diagram strategol fod yn fap daearyddol gywir. Mae nodweddion megis yr ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol yn cael eu nodi'n fras, gan roi lle i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ddatblygu cynigion penodol yn seiliedig ar ffactorau rhanbarthol a lleol. Yn yr un modd, mae'r symbolau cysylltedd yn rhai cyffredinol, sy'n dangos yn fras iawn symudiad pobl, nwyddau a gwasanaethau o fewn rhanbarthau a ledled y wlad. Nid ydynt yn darlunio ffyrdd, rheilffyrdd na seilwaith arall penodol; maent yn symbolau o'r prif batrymau symud o arwyddocad cenedlaethol.

**Ardaloedd Twf Cenedlaethol**

- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy
- Bae Abertawe a Llanelli
- Caerdydd, Casnewydd a Chymoedd y De

14. Dyma'r prif ardaloedd trefol yn y wlad, gyda chynlluniau ar gyfer systemau Metro a seilwaith sefydledig o ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus cymysg. Mae pob ardal yn arwyddocaol yn economaidd o ran nifer y swyddi a'r cyfraniad a wnânt at ffyniant ar raddfa genedlaethol. Mae clystyrau o ddinasoedd a threfi ym mhob ardal, sy'n rhoi cyfle a màs critigol i wella systemau trafnidiaeth gyhoeddus a systemau trafnidiaeth wedi'u datgarboneiddio. Gan fod mwy nag un 'ganolfan' ym mhob ardal mae cyfle i ddosbarthu cartrefi, swyddi a ffyniant yn unol ag anghenion y rhanbarth ac, o bosibl, leihau'r ddibyniaeth ar ganolfannau unigol i gynnig swyddi a chyfleoedd. Y Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fydd yn penderfynu ar raddfa a lleoliad datblygiadau o fewn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac yn dyrannu tir yn unol â hynny.

**Ardaloedd Twf Rhanbarthol/Canolfannau Twf Rhanbarthol**

- Trefi'r Ddau Gleddau, Sir Benfro
- Caerfyrddin
- Aberystwyth
- Llandrindod
- Y Drenewydd
- Trefi arfordirol Gogledd Cymru
- Bangor a Chaernarfon

15. Nodir Ardaloedd Twf Rhanbarthol ar y Diagram Strategol lle maent wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol – h.y. yn y gogledd ac yn y canolbarth a'r de-orllewin. Mewn termau cenedlaethol, mae gan rai boblogaethau eithaf bach (o'u cymharu â threfi yn y de-ddwyrain, er enghraifft) ond o fewn eu rhanbarthau maent yn ganolfannau pwysig, yn rhannol oherwydd eu pellter o'r dinasoedd mawr agosaf. Mae'r trefi hyn yn ganolfannau economaidd a chymdeithasol pwysig. Mae ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth cymharol dda ac maent yn hygyrch i boblogaeth ehangach, gan gynnwys ardaloedd gwledig.

16. Gan amlaf, maent yn ganolfannau diwylliannol a masnachol, gyda sefydliadau pwysig megis prifysgolion, theatrau, lleoliadau cyngherddau, siopau ac atyniadau a llety i ymwelwyr. Mae Caerfyrddin, Aberystwyth, Caernarfon a Bangor yn benodol yn ganolfannau diwylliant Cymraeg, gyda gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd helaeth yn cael ei gynnal yn Gymraeg. Mae'r holl drefi hyn yn lleoedd a nodwyd ar hyn o bryd yn y Cynlluniau Datblygu Lleol perthnasol fel rhai sy'n cyflawni swyddogaethau pwysig ac sydd â'r potensial i dyfu a datblygu.

17. Mae'r trefi hyn yn llai na'r prif drefi yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac nid yw eu poblogaethau mor ddwys. Fel yn achos yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol, y Cynlluniau Datblygu Strategol neu'r Cynlluniau Datblygu Lleol fydd yn penderfynu ar raddfa a lleoliad datblygiadau ac yn dyrannu tir yn unol â hynny.

18. Yn y de-ddwyrain, mae'r rhan fwyaf o'r rhanbarth o fewn yr Ardal Twf Cenedlaethol. Mae'r FfDC drafft yn nodi Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Phontypridd fel Canolfannau Twf Rhanbarthol o fewn yr Ardal Twf, gan ategu Caerdydd a Chasnewydd, sy'n Ganolfannau Twf Cenedlaethol. Mae'r pedair tref hyn yn gyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol y bydd eu rôl yn datblygu wrth i Fetro De Cymru ddatblygu. Maent hefyd yn ganolfannau gweinyddol, masnachol a manwerthu. Mae'r canolfannau rhanbarthol yn elfen bwysig o ran dosbarthu twf ledled yr Ardal Twf Cenedlaethol yn ei chyfanrwydd. Gellir nodi lleoedd eraill o fewn y rhanbarth a allai fod â rolau pwysig drwy Gynllun Datblygu Strategol.



**Cysylltedd a chysylltiadau**

19. Mae strategaeth ofodol y FfDC yn ceisio hyrwyddo cyd-leoli cartrefi gyda swyddi a gwasanaethau ond mae'n cydnabod bod llwybrau cymudo prysur a phatrymau teithio rhwng lleoedd gwahanol ledled Cymru, yn enwedig o fewn yr ardaloedd trefol. Dangosir y mathau hyn o gysylltiadau fel 'Cysylltedd Rhyng-drefol' ar y Diagram Strategol. Dylai cryfhau cydnerthedd y llwybrau hyn – drwy well seilwaith rheilffyrdd, ffyrdd a theithio llesol neu drwy well gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus – fod yn flaenoriaeth yn ystod oes cynllun y FfDC.

20. Mae'r coridorau Cysylltedd Rhanbarthol yn dangos patrwm cyffredinol symudiadau y tu allan i'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol. Yn fras, maent yn adlewyrchu'r prif lwybrau rheilffordd a'r rhannau allweddol o'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Mae'r cysylltiadau hyn yn hollbwysig o ran symud nwyddau a phobl rhwng rhanbarthau Cymru ac ar draws y ffin â Lloegr.

21. Mae'r 'Cysylltiadau Rhyngwladol' a ddangosir ar y Diagram Strategol yn gysylltiedig â'r Porthladdoedd a'r Maes Awyr Strategol.

**Porthladdoedd a Maes Awyr Strategol**

22. Nodir mai porthladdoedd Aberdaugleddau a Chaergybi a Maes Awyr Caerdydd yw porthladdoedd a maes awyr strategol Cymru. Y rhain yw'r mannau cyrraedd rhyngwladol prysuraf i nwyddau a phobl yng Nghymru ac maent yn hollbwysig i uchelgeisiau economaidd y wlad. Mae amrywiaeth o draffig yn teithio drwy Aberdaugleddau, gan gynnwys cludwyr nwyddau, llongau mordeithio, cychod pysgota a fferïau teithwyr. Aberdaugleddau yw'r porthladd cludo nwyddau mwyaf ond dau yn y DU yn ôl pwysau ac mae'n saith gwaith yn fwy prysur na'r porthladd prysuraf nesaf yng Nghymru. Gwasanaethau llongau fferi 'ro-ro' yw prif draffig Caergybi, sy'n gyswllt masnachu hollbwysig ag ynys Iwerddon. Caergybi yw'r porthladd 'ro-ro' prysuraf ond un yn y DU. Mae'n bwysig i'r wlad bod y porthladdoedd hyn yn cadw eu statws a bod y dyheadau i dyfu'n gynaliadwy yn cael eu cefnogi.

23. **Mae'r papur esboniadol ar y Cynllun Morol a'r Porthladdoedd yn rhoi mwy o fanylion.**

24. Maes Awyr Caerdydd yw unig faes awyr rhyngwladol Cymru. Mae gwasanaethau a nifer y teithwyr yn y maes awyr yn cynyddu'n gyson (gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/air-transport-2018.pdf) ac mae'n symbol pwysig o gysylltedd rhyngwladol Cymru. Fel gyda'r porthladdoedd strategol, mae'n bwysig bod yr uchelgais i sicrhau twf cynaliadwy yn y maes awyr yn cael ei gefnogi.

## Ardaloedd a lleoedd nas enwyd yn benodol yn y strategaeth ofodol

25. Y FfDC yw'r cynllun datblygu ar lefel genedlaethol a chaiff ei ategu gan Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae i bob haen o'r cynllun datblygu ddibenion gwahanol a bydd pob un yn gweithredu ar raddfeydd gwahanol.

26. Mae'r FfDC drafft yn nodi materion a blaenoriaethau ar raddfa genedlaethol. Dylid gweithredu ar y rhain yn briodol mewn cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol, gan ei bod yn ofynnol iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Nid yw'r FfDC drafft yn nodi maint y twf na hyd a lled daearyddol Ardaloedd Twf Cenedlaethol nac Ardaloedd Twf Rhanbarthol, gan mai ar lefelau rhanbarthol a lleol y dylai'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud. Y Cynllun Datblygu Strategol neu'r Cynllun Datblygu Lleol perthnasol, drwy ddefnyddio gwybodaeth leol ac ymgysylltu, fydd yn penderfynu, er enghraifft, pa aneddiadau sydd o fewn ardal twf ac yn dewis safleoedd priodol ar gyfer datblygiadau.

27. Ni ddylai'r FfDC enwi pob lle yng Nghymru gan nodi ei rôl a'i swyddogaeth o ran datblygu ac, yn rhesymol, ni all wneud hynny. Mae wedi nodi'r lleoedd hynny sydd â rolau allweddol i'w chwarae o ran sicrhau Canlyniadau'r FfDC ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru ar raddfa genedlaethol. Caiff y weledigaeth ar gyfer twf a datblygu ym mhob lle arall ei nodi drwy haenau eraill o'r cynllun datblygu.

## Cyflwyno'r strategaeth ofodol: Polisïau allweddol

28. Bydd llawer o'r polisïau yn y FfDC drafft yn cefnogi'r strategaeth ofodol yn uniongyrchol a bwriedir iddynt lywio patrymau datblygu er mwyn cefnogi'r strategaeth ofodol.

**Polisi 1 – Twf Trefol Cynaliadwy**
**Polisi 2 – Cefnogi Canolfannau Trefol**

29. Mae'r polisïau hyn yn ymwneud â dyluniad a swyddogaeth lleoedd trefol. Maent yn annog mathau mwy cynaliadwy o ddatblygu, gan gynnwys datblygiadau dwysedd uwch mewn lleoliadau priodol. Mae'r polisïau yn hyrwyddo canol trefi a dinasoedd llewyrchus, gan ymgorffori cymysgedd o ddefnyddiau lle yr anogir cyd-leoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau allweddol.

**Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig**

30. Mae'r FfDC drafft yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi ac annog datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Mae'r polisi hwn yn nodi'r angen am dwf a datblygu mewn ardaloedd gwledig, ar raddfa sy'n briodol i'r ardal. Ar y lefel ranbarthol a lleol y penderfynir hyn orau ond mae'r FfDC yn cydnabod arwyddocad Cymru wledig fel adnodd economaidd ac fel cartref i nifer sylweddol o bobl yng Nghymru. Mae'r testun ategol yn nodi sectorau sy'n cynnig cyfleoedd allweddol i ddatblygu cyflogaeth gwerth uchel er mwyn helpu i gynnal a datblygu poblogaeth wledig lewyrchus a ffyniannus.

31. **Mae papur esboniadol ar wahân yn nodi dull gweithredu'r FfDC o ran ardaloedd gwledig.**

**Polisi 17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy**
**Polisi 18 – Aneddiadau Arfordirol yng Ngogledd Cymru**

32. Mae'r polisïau hyn yn nodi uchelgeisiau i dyfu a datblygu prif ardaloedd trefol y gogledd. Mae Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn ardal twf cenedlaethol a'r prif ffocws ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr yn y rhanbarth. Mae cysylltiadau agos rhwng yr ardal hon a gogledd-orllewin Lloegr, ac mae polisi'r FfDC drafft yn glir bod yn rhaid i ddatblygiadau yn yr ardal hon ymateb i alwadau sy'n codi ar y naill ochr a'r llall o'r ffin er budd trefi a chymunedau Cymru.

33. Mae trefi arfordirol y gogledd yn Ardaloedd Twf Rhanbarthol, a dylent fod yn ffocws ar gyfer datblygu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r trefi a nodwyd wedi'u rhannu'n ddau glwstwr: Caernarfon a Bangor yn y gorllewin; Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn y dwyrain. Mae'r rhain yn drefi gwasanaethu pwysig i gefn gwlad gogledd Cymru.

**Polisi 23 – Bae Abertawe a Llanelli**
**Polisi 24 – Canolfannau Rhanbarthol**

34. Clwstwr Abertawe, Castell-nedd, Port Talbot a Llanelli yw'r clwstwr trefol mwyaf ond un yng Nghymru ac mae'n Ardal Twf Cenedlaethol yn y FfDC drafft. Mae'r polisi ar gyfer yr ardal yn cydnabod y potensial ar gyfer datblygu a buddsoddi yn y dinas-ranbarth hwn a'r angen am hynny er mwyn sicrhau buddiannau rhanbarthol ehangach.

35. Mae'r canolfannau rhanbarthol yn y canolbarth a'r de-orllewin yn drefi amlswyddogaethol sydd â phrif swyddogaethau penodol. Maent yn drefi diwydiannol, gyda chyfleoedd cyflogaeth sylweddol yn awr ac yn y dyfodol (Aberdaugleddau, Doc Penfro) a threfi marchnad sy'n datblygu'n gynyddol o amgylch gwasanaethau cyhoeddus, canol trefi ac economi ymwelwyr (Caerfyrddin, Hwlffordd, Aberystwyth, y Drenewydd a Llandrindod). Y lleoedd hyn sydd yn y sefyllfa orau yn y rhanbarth i gyflawni yn erbyn Canlyniadau'r FfDC.

**Polisi 27 – Caerdydd**
**Polisi 28 – Casnewydd**
**Polisi 29 – Blaenau'r Cymoedd**

36. De-ddwyrain Cymru yw'r ardal fwyaf poblog â'r dwysedd poblogaeth mwyaf yn y wlad. Caerdydd yw'r lle mwyaf yng Nghymru, a Chasnewydd yw'r lle mwyaf ond dau, ac mae gan y naill a'r llall rolau hollbwysig i'w chwarae o ran creu ffyniant a llesiant ar raddfa ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r brifddinas yn symbol pwysig o statws cenedlaethol a hyder Cymru, ac felly mae'r FfDC drafft yn ceisio annog ehangu ar y rôl hon drwy bolisi 27. Mae'r tueddiadau o ran marchnadoedd tai a chyflogaeth yn awr ac yn y dyfodol yn cynnig cyfle amserol i ganolbwyntio ar ddatblygu Casnewydd a mabwysiadu ymagwedd fwy lluosganolog at ddatblygu yn y rhanbarth.

37. Mae Cymoedd y De wedi gweld crebachu mawr ar y diwydiannau traddodiadol dros y cenedlaethau diwethaf ac mae hynny wedi arwain at newid sylweddol lle dibynnir ar leoedd ar hyd coridor yr M4 ar gyfer swyddi. Mae'r FfDC drafft yn credu y gall Metro De Cymru a buddsoddiadau eraill fod yn sbardun i wneud Blaenau'r Cymoedd yn lleoedd mwy cystadleuol a dymunol i leoli swyddi newydd a, thrwy hynny, ailfywiogi marchnadoedd tai lleol a chanol trefi yn y rhan hon o'r rhanbarth.

**Polisi 21 – Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr**
**Polisi 26 – Metro Bae Abertawe**
**Polisi 31 – Twf mewn aneddiadau sy'n canolbwyntio ar gludiant gynaliadwy**

38. Mae'r gyfres hon o bolisïau yn nodi pwysigrwydd integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus â dyheadau datblygu ym mhob un o'r tair ardal twf cenedlaethol. Mae prosiectau'r Metro ym mhob ardal wedi cyrraedd camau gwahanol o ran cael eu gweithredu ac maent ar raddfeydd gwahanol o ran uchelgais. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn yr ardaloedd hyn sicrhau bod maint y twf a'i ddosbarthiad yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol sy'n bodoli eisoes ac y bwriedir ei ddatblygu.

**Polisi 19 – Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru**
**Polisi 30 – Lleiniau Glas yn Ne-ddwyrain Cymru**

39. Mae'r polisïau hyn yn ceisio rheoli'r math o ddatblygu mewn rhannau gwledig o'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn ffordd sy'n diogelu cefn gwlad rhag datblygu amhriodol ac sy'n annog datblygu mewn aneddiadau sefydledig. Defnyddir lleiniau glas

i osgoi blerdwf trefol, er mwyn helpu aneddiadau i gadw eu natur unigryw ac atal aneddiadau rhag ymdoddi i'w gilydd.

40. Mae'r ddwy lain las a nodwyd yn y FfDC drafft yn y gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain. Ceir lleiniau glas sefydledig yn Lloegr sy'n ffinio â Chymru, er mwyn rheoli datblygu yng Nghaer a Bryste a'u cyffiniau. Byddai'r lleiniau glas arfaethedig yn yr FfDC drafft yn galluogi awdurdodau i reoli datblygu yn yr un modd ar ochr Cymru i'r ffin fel y bydd mannau gwyrdd a thir amaethyddol cynhyrchiol yn cael eu cadw. Byddai'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyfeirio datblygu at y canolfannau sy'n bodoli eisoes a wasanaethir gan seilwaith, a hefyd ddefnyddio datblygu i ysgogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn seilwaith a hyrwyddo adfywio trefol ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

41. Yn y gogledd-ddwyrain, mae cryn symud o ran pobl a nwyddau rhwng Cymru a Chaer a rhanbarth ehangach Gogledd-orllewin Lloegr. Byddai llain las yn galluogi awdurdodau yng Nghymru i reoli pwysau datblygu sy'n codi'n rhannol am fod tir yng Nghymru yn rhatach yn gyffredinol nag yn Lloegr. Byddai'n helpu i gadw trefi yn ardal Glannau Dyfrdwy yn rhai ar wahân i Swydd Gaer ac ardal ehangach Gogledd-orllewin Lloegr.

42. Yn y de-ddwyrain, mae diddymu'r tollau ar y pontydd dros Afon Hafren wedi cael effaith uniongyrchol ar y farchnad dai yn y de-ddwyrain, am fod prisiau tai yma yn gymharol ratach nag ym Mryste. Mae wedi arwain at fwy o alw am gartrefi ar hyd coridorau'r M4/M48. Gallai llain las helpu i gyfeirio'r galw hwnnw at drefi a dinasoedd sefydledig mewn ffordd strategol. Yn benodol, gallai helpu i ganolbwyntio'r galw ar Gasnewydd – dinas y nodwyd yn y FfDC drafft ei bod yn Ardal Twf Cenedlaethol. Mae'n ddinas sydd â thwf cadarn o ran swyddi, gan gynnwys sector lled-ddargludyddion sy'n datblygu, a lleoliad strategol ar brif linell reilffordd y Great Western.

43. Mae lleiniau glas wedi cael eu defnyddio'n helaeth fel dull o gyfeirio datblygiadau a gwarchod cefn gwlad a thir gwledig mewn rhannau eraill o'r DU ers dros 70 mlynedd. Mae tua 12.4% o dir Lloegr yn llain las (assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/840240/Green_Belt_Statistics_England_2018-19.pdf) (1.62m ha), ac yn yr Alban ceir lleiniau glas o amgylch saith ardal. Mae eu hyd a'u lled gofodol i'w gweld yma:www.spatialhub.scot/.

## Atodiad 1: Data a thystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r strategaeth ofodol

Mae'r cysylltiadau canlynol yn rhai o'r ddangosyddion a ddefnyddiwyd i greu'r strategaeth ofodol

1. **Dwysedd poblogaeth yn ôl ardal awdurdod lleol**
   llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru.pdf
2. **Ardaloedd adeiledig yn ôl maint y boblogaeth**
   lle.gov.wales/catalogue/item/LatestBuiltUpAreaSubDivisionPopulations2015AsAtMay2017/?lang=cy
3. **Lleoliad gweithgaredd economaidd**
   llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economaidd-cymru.pdf
4. **Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardal awdurdod lleol**
   statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Whole-Workforce/workplaceemployment-by-welshlocalareas-year
5. **Lleoliad ysgolion**
   lle.gov.wales/catalogue/item/MLSSchools/?lang=cy
6. **Defnydd gorsafoedd trenau**
   gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-02/rail-station-usage-april-2017-to-march-2018.pdf (saesneg yn unig)
7. **Map dosbarthiad tir amaethyddol**
   lle.gov.wales/catalogue/item/PredictiveAgriculturalLandClassificationALCMap/?lang=cy
8. **Ardaloedd tawel**
   http://lle.gov.wales/catalogue/item/TranquilAreasWales/?lang=cy